Memorandwm Esboniadol i Reoliadau Hadau (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2007

Cafodd y Memorandwm Esboniadol hwn ei baratoi gan Yr Adran Materion Gwledig a Threftadaeth ac fe'i gosodir ger bron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

(i) **Disgrifiad**

Mae Rheoliadau Hadau (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2007 yn newid sawl set o Reoliadau sy'n ymwneud â marchnata hadau nifer o blanhigion gwahanol. Mae'r offeryn hwn yn gwneud newidiadau fydd yn caniatau marchnata hadau o'r tu allan i'r Undeb Ewropeaidd, ac yn diweddaru'r rhestr o hadau llysiau sy'n dod o dan y rheolau marchnata (gan ychwanegu india-corn/popcorn at y rhestr). Mae newid technegol bach yn cael ei wneud i'r drefn samplo hadau ac mae newidiadau yn cael eu gwneud hefyd am fod Bwlgaria a Romania wedi ymuno â'r Undeb Ewropeaidd. Mae camgymeriadau drafftio bach a wnaed wrth ymgorffori newidiadau cynharach yn cael eu cywiro.

(ii) **Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth**

Nid oes unrhyw faterion yn codi.

(iii) **Y Cefndir Deddfwriaethol**

Caiff y Rheoliadau hyn eu gwneud trwy'r pwerau a roddwyd gan adrannau 16(1), (1A), (2), (3), (4) a (5) a 36 Deddf Amrywogaethau a Hadau Planhigion 1964. Mae'r pwerau hyn wedi'u trosglwyddo i Gynulliad Cenedlaethol Cymru drwy Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S 1999/672 Erth. 2 Atodlen 1) i'w gweithredu gan Weinidogion Cymru trwy Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Gwneir yr Offeryn Statudol gan ddefnyddio'r weithdrefn penderfyniad negyddol.

(iv) **Pwrpas a darpar effaith y deddfwriaeth**

Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael Yn ôl Cyfarwyddebau Ewrop, rhaid ardystio hadau prif gnydau masnachol cyn eu marchnata er mwyn sicrhau bod yr hadau a werthir i ffermwyr a thyfwyr yn bodloni safonau penodedig. Mae'r newidiadau mân a wnaed i'r Cyfarwyddebau hyn yn golygu bod angen newid y Rheoliadau Marchnata Hadau:

- Mae Penderfyniad y Cyngor 2005/834/EC yn diweddaru'r diffiniad o drydedd wlad gyfatebol yn y rheoliadau marchnata hadau amrywiol er mwyn sicrhau bod had a fewnforir o'r gwledydd a restrir yn bodloni safonau ardystio a marchnata'r CE.

- Mae Cyfarwyddeb 2006/124/EC yn ychwanegu sialots, sibwns, garlleg, cennin sifi, riwbob a phop-corn/india-corn fel had rhywogaeth sydd dan reolaeth, gyda newidiadau canlyniadol. Mae Cyfarwyddeb y Comisiwn 2007/321/EC yn rhyddhau'r DU o'i rhwymedigaeth i'r rheolau ar farchnata had sialots, sibwns, garlleg, cennin sifi a riwbob gan mai ychydig iawn o hadau'r planhigion hyn sy'n cael eu cynhyrchu yn y DU.

- Mae Rheoliad y Comisiwn (EC) 217/2006 yn hwyluso ac yn symleiddio'r drefn ar gyfer awdurdodi Aelod-Wladwriaeth i farchnata, am gyfnod, had nad yw'n bodloni'r safonau egino gofynnol, er enghraifft pan fydd had sydd yn bodloni'r safon yn brin oherwydd tywydd anffafriol. Rhaid ymgorffori'r newid hwn yn yr holl reoliadau marchnata had.

Bydd cyfle hefyd i wneud y cywiriadau/newidiadau technegol bach canlynol:

- Cywiro camgymeriadau drafftio bach yn Rheoliadau Hadau (Diwygiadau ar gyfer Cynnal Profion a Threialu ac ati) (Cymru) 2007. Ychwanegoedd y Rheoliadau hyn Ran VII newydd at Atodlen 8 Rheoliadau Hadau Llysiau (Cymru) 2005 ac mae angen eu newid ychydig er mwyn newid y pennawd "Official Label...." i "Supplier's Label ...".

- newid "the seed satisfies" i "the crop satisfies" yn y Rheoliadau ar gyfer Betys, Ydau, Porthiant ac Olew a Ffeibr; a'r

- Gan fod Bwlgaria a Romania wedi ymuno â'r UE, newid y diffiniad o "drydedd wlad gyfatebol" er mwyn colli'r cyfeiriad at y gwledydd hyn yn rheoliad 2(1) yn y rheoliadau Betys, Ydau, Cnydau Porthiant ac Olew a Ffeibr.

(v) **Gweithredu**

Gwnaethpwyd y Rheoliadau hyn ar 17 Medi 2007 a bwriedir iddynt ddod i rym ar 11 Hydref 2007. Gwnaeddarpariaeth debyg yn Lloegr a ddaeth i rym ar 27 Gorffennaf 2007. Gallai bod heb y Rheoliadau hyn

olygu anawsterau gweithredu i'r Arolygiaeth Iechyd Planhigion Hadau (AIPH) I trwy orfod cynnal systemau gweithredu gwahanol yng Nghymru a Lloegr i ddarparu gwasanaethau sy'n ymwneud â'r Rheoliadau hyn.

(vi) **Ymgynghoriad**

Cynhaliodd swyddogion ymgynghoriad â charfanau perthnasol rhwng 26 Chwefror a 30 Mawrth 2007 ar gynigion i newid y Seeds (National Lists of Varieties) Regulations 2001 a'r Rheoliadau Marchnata Hadau. Mae copi o'r rhestr ymgynghori yn Atodiad A.

Ni chafwyd unrhyw ymatebion iddo.

(vii) **Asesiad Effaith Rheoleiddiol**

Nid oes Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i baratoi gan na chaiff y newidiadau effaith andwyol ar y diwydiant hadau. Bach iawn fydd eu heffaith ar fusnesau ac ni fydd effaith o gwbl ar y sectorau preifat a gwirfoddol.

ATODIAD A

Consultation List

ADAS Wales
Agricultural Industries Confederation
Agrovista UK Ltd
Arthur Adrian Evans
Association of Independent Crop Consultants
Border Counties Agriculture
Burgess Agricultural Engineers Ltd
Country Land and Business Association
Countryside Council for Wales
Countrywide Farmers
Dalgety
David Thomas & Son
Department of Agriculture and Rural Development
DR & MG Williams & Son
Dyfed Seeds Ltd
Environment, Planning and Countryside Committee
Farmers' Union of Wales
Friends of the Earth Cymru
G Davies & Co
GM Free Cymru
Institute of Grassland and Environmental Research
Institute of Rural Sciences
Masstock Arable (UK) Ltd
M-S CVJ & PM Pugh
NFU Cymru
Organic Centre Wales
Phil Rees Agronomy
Powys Leys
ProCam Group Ltd
RM & GV Williams
Sarvari Research Trust
Tom Jones & Sons Ltd
United Agri Products (UAP)
Walter Simon
Ward Smithies
Wynnstay Arable
Young Farmers Clubs of Wales-CFfI Cymru